Ry'n ni wedi cadw ffeiliau a elwir yn cwcis ar eich dyfais. Mae'r cwcis hyn:

- yn hanfodol i'r safle weithio
- yn ein helpu ni i wella'n gwefan drwy gasglu ac adrodd gwybodaeth ar sut yr ydych yn defnyddio'r safle

Byddem hefyd yn hoffi cadw rhai cwcis i'n helpu ni i deilwra cyfathrebu.

Derbyn cwcis | Newid gosodiadau cwcis

» Dilynwch y cyngor ar gyfer y coronafeirws (COVID-19)

Hafan > Heb ganfod y dudalen

CANLLAWIAU

Diogelu Addysg: canllawiau gweithredol i ysgolion a lleoliadau addysg (COVID-19)

Mae'r canllaw hwn yn darparu arweiniad ymarferol ar baratoi ar gyfer a chynyddu gweithrediadau yn ystod dychweliad graddol hyd at ddiwedd tymor yr haf. Mae'n helpu ysgolion a lleoliadau i ystyried arweiniad ynghylch hylendid, pellhau cymdeithasol, hunanwahanu a phrofi os yw person yn dangos symptomau.

Cyhoeddwyd gyntaf: 10 Mehefin 2020
Diweddarwyd ddiwethaf: 10 Mehefin 2020

Cynnwys

Cyflwyniad
Paratoi i gynyddu gweithrediadau
Cadw pobl yn ddiogel ac yn iach
Cyfleusterau a logisteg: rheoli'r lleoliad

Cyflwyniad

Mae'r ymateb i COVID-19 wedi achosi nifer o anawsterau i'r gymuned addysg drwyddi draw. Mae cyfyngiadau symud, cadw pellter cymdeithasol, salwch ac, o bosibl, profedigaeth wedi creu amrywiaeth o heriau i ddysgwyr ac i staff. Mae dychwelyd at addysg mewn lleoliad ffisegol hefyd yn arwain at heriau newydd.

Mae ysgolion ac ymarferwyr eisoes wedi chwarae eu rhan yn y frwydr yn erbyn COVID-19: drwy sefydlu darpariaeth ar gyfer plant gweithwyr hanfodol a phlant agored i niwed a rheoli dysgu o bell ar raddfa nas gwelwyd o'r blaen a hynny'n eithriadol o gyflym. Wrth i ni symud i'r cam nesaf hwn, bydd rôl ysgolion, lleoliadau ac ymarferwyr nawr yr un mor bwysig: gan feithrin ein plant a'u cefnogi i barhau i ddysgu ac i lwyddo. Yn unigol ac ar y cyd, rydych chi fel ymarferwyr yn hynod werthfawr i'n hymdrechion fel cenedl i ddiogelu ein hiechyd.

Ar 3 Mehefin, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg y byddai ysgolion yn cynyddu eu gweithrediadau o 29 Mehefin tan 24 Gorffennaf, er mwyn i'r holl ddysgwyr gael cyfle i 'ailgydio, dal i fyny a pharatoi ar gyfer yr haf a mis Medi'. Disgwylir y bydd yr holl ddysgwyr sy'n gallu gwneud hynny yn cael cyfle i fynd i'w hysgol neu eu lleoliad ar gyfer amser wyneb yn wyneb dros weddill tymor yr haf. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd ysgolion yn derbyn tua 1/3 o ddysgwyr bob dydd yn unol â'u capasiti, ar yr un pryd â sicrhau bod pawb yn cadw pellter cymdeithasol yn briodol.

Wrth i ragor o ddysgwyr ddychwelyd i amgylchedd ffisegol yr ysgol, bydd ymarferwyr yn gweithio mewn cyd-destun gwahanol iawn. Bydd hyn yn parhau am gryn amser eto. Rydym yn disgrifio'r dull gweithredu hwn fel dysgu cyfunol – cyfuniad o ddysgu wyneb yn wyneb â dysgu o bell. Bydd ysgolion a lleoliadau yn parhau i ddatblygu dulliau a dysgu newydd er mwyn diwallu anghenion eu dysgwyr mewn ymateb i'r pandemig. Wrth wneud hynny, gall ymarferwyr ystyried dibenion y dysgu a phwyso a mesur eu blaenoriaethau; bydd modd defnyddio amrywiaeth eang o ganllawiau cwricwlwm mewn ffordd hyblyg er mwyn eu cefnogi gyda'r gwaith hwn.

Wrth ddelio â'r heriau hyn, bydd angen i'r holl staff ddefnyddio ystod lawn eu harbenigedd proffesiynol. Mae gan ysgolion a lleoliadau gyfraniad unigryw a hollbwysig i'w wneud i gefnogi pobl ifanc i ymdopi â heriau'r pandemig.

Cyhoeddwyd y **Fframwaith penderfyniadau ar gyfer y cam nesaf i addysg a gofal plant** ar 15 Mai fel dogfen weithio i gynghori ar ffyrdd o newid sut roedd ysgolion a darparwyr eraill yn gweithredu dros amser er mwyn ymateb i COVID-19. Roedd hwn yn ailadrodd 5 egwyddor allweddol y Gweinidog Addysg ar gyfer y cam nesaf..

- Diogelwch, a lles meddyliol, emosiynol, a chorfforol dysgwyr a staff.
- Parhau i gyfrannu at yr ymdrech a'r strategaeth genedlaethol i fynd i'r afael â lledaeniad COVID-19.
- Ennyn hyder rhieni a gofalwyr, staff a dysgwyr – ar sail tystiolaeth a gwybodaeth – fel y gallant flaengynllunio.
- Y gallu i flaenoriaethu dysgwyr ar adegau allweddol, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd difreintiedig.
- Cysondeb â fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer gwneud penderfyniadau, rhoi canllawiau ar waith i gefnogi mesurau megis ymbellhau, rheoli presenoldeb a chamau diogelu ehangach.

Mae'r egwyddorion hyn yn hollbwysig nid yn unig mewn perthynas ag unrhyw benderfyniad i gynyddu gweithrediadau ysgolion dros y cyfnod hwn, ond maent yn arwydd o'r blaenoriaethau ar gyfer y system dros y misoedd nesaf.

Diben y canllawiau hyn

Mae'r rhain yn ganllawiau ymarferol ar gyfer paratoi a chynyddu gweithrediadau wrth ddychwelyd yn raddol hyd at ddiwedd tymor yr haf. Maent yn cynnwys negeseuon pwysig ar atal a rheoli'r haint. Byddant yn ddefnyddiol i bob lleoliad addysg, ond y prif nod yw helpu ysgolion.

Mae'r canllawiau hyn yn cefnogi ysgolion a lleoliadau i gynyddu eu gweithrediadau ar y safle mewn ffordd ddiogel ar gyfer staff a dysgwyr. Maent yn cynnwys y mesurau gall ysgolion a lleoliadau eu rhoi ar waith er mwyn:

- cynllunio a threfnu'r ddarpariaeth: gan gynnwys penderfynu ar gapasiti a rhestrau gwirio er mwyn cymryd y camau nesaf
- cefnogi iechyd a lles staff a dysgwyr; gan helpu i gadw pobl yn ddiogel
- rheoli eu cyfleusterau a'r trefniadau logistaidd: gan gynnwys adeiladau, adnoddau, glanhau a chludiant.

Mae'r canllawiau hyn hefyd yn cynnwys dolenni at ragor o wybodaeth a chanllawiau perthnasol. Bydd y canllawiau hyn yn esblygu yn unol â'r cyngor iechyd diweddaraf a byddant yn cael eu diweddaru yn nes ymlaen yn ystod tymor yr haf. Dylid eu darllen ochr yn ochr â'r **Diogelu Addysg: Canllawiau ar ddysgu dros dymor yr haf**. Rydym wedi datblygu ardal **Cwestiynau Cyffredin** i ymateb i ymholiadau cyffredin.

Mae'r canllawiau hyn yn helpu ysgolion a lleoliadau i ystyried canllawiau ynghylch hylendid, cadw pellter cymdeithasol, hunanynysu a phrofi os bydd gan rywun symptomau. Mae'r mesurau hyn yn hollbwysig yn y frwydr yn erbyn COVID-19 a dyma'r ffyrdd mwyaf effeithiol o leihau'r risg o drosglwyddo'r haint. Er bod staff, rhieni, gofalwyr a dysgwyr o bosibl yn poeni am y risgiau, mae hi'n bwysig cofio y bydd darpariaeth yn fwy diogel o lawer a'r risg yn llai drwy ddilyn y canllawiau.

Rydym wedi gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol, staff ac undebau i lunio'r canllawiau hyn a bydd y sgwrs hon yn parhau wrth i'r sefyllfa esblygu. Rydym wedi ymrwymo i gydweithio mewn partneriaeth â'r sector addysg i symud ymlaen o'r sefyllfa bresennol mewn ffordd ddiogel a phwrpasol.

Mae'r rhain yn ganllawiau cyffredinol i awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau eu dilyn. Bydd manylion y gweithrediadau wrth gwrs yn dibynnu ar gyd-destun a chapasiti pob ysgol a lleoliad unigol.

Paratoi i gynyddu gweithrediadau

Presenoldeb

Disgwylir y dylai pob dysgwr gael y cyfle i fynd i'r ysgol at ddibenion addysgiadol dros weddill tymor yr haf am gyfnod byr.

Bydd angen i ysgolion weithio gydag awdurdodau lleol i benderfynu faint o ddysgwyr a staff gallant eu derbyn ar yr un pryd, ac felly pa mor hir mae'n bosibl i'r dysgwyr ddod i'r ysgol. Mae rhagor o ganllawiau ar gael isod ynghylch hyn o dan 'Penderfynu ar gapasiti a'i reoli'.

Dylai ysgolion weithio gyda rhieni a gofalwyr i sicrhau eu bod yn deall sut mae risgiau trosglwyddo'r haint yn cael eu lliniaru.

Dylai ysgolion a lleoliadau gadw cofnod o bresenoldeb a dylai teuluoedd roi gwybod i'r ysgol os na fydd eu plentyn yn gallu bod yn bresennol. Bydd hyn yn helpu ysgolion, lleoliadau ac awdurdodau lleol i ddeall unrhyw beth sy'n rhwystro dysgwyr rhag dychwelyd i'r ysgol a chynllunio ar gyfer hynny gan ddod o hyd i unrhyw gefnogaeth ychwanegol sydd ei hangen.

Ni fydd hi'n ddiogel i rai dysgwyr a staff fod yn bresennol. Rhoddir sylw i'r categorïau hynny isod. Mae rhagor o fanylion ar gael yma ynghylch pwy sy'n perthyn i'r categori eithriadol o agored i niwed ac i'r categori agored i niwed:

- **Canllawiau cadw pellter cymdeithasol y coronafeirws (COVID-19) i bawb yng Nghymru**

Y rheini sydd â symptomau

Beth bynnag fo'r amgylchiadau, ni ddylai dysgwyr na staff ddod i'r ysgol/lleoliad os ydynt yn:

- teimlo'n sâl, os oes ganddynt unrhyw un o'r tri symptom COVID-19 (peswch cyson newydd, tymheredd uchel neu fethu arogli neu flasu) neu os ydynt wedi cael canlyniad positif am COVID-19 yn ystod y 14 diwrnod diwethaf
- byw gyda rhywun sydd â symptomau COVID-19 neu sydd wedi cael canlyniad positif am COVID-19 dros y 14 diwrnod diwethaf.

Staff neu ddysgwyr sy'n 'eithriadol o agored i niwed' neu sy'n gwarchod

Mae "gwarchod" yn golygu diogelu'r bobl hynny sy'n eithriadol o agored i niwed cymhlethdodau difrifol y coronafeirws oherwydd bod ganddynt gyflyrau iechyd penodol yn barod. Mae hyn yn cynnwys plant sy'n eithriadol o agored i niwed ac sydd â risg uchel o ddatblygu salwch difrifol os byddant yn dal y coronafeirws (COVID-19) oherwydd bod ganddynt gyflwr iechyd isorweddol difrifol penodol. Bydd yr unigolion hyn wedi cael **llythyr gwarchod** oddi wrth y Prif Swyddog Meddygol. **Rhaid peidio** â gofyn i staff a dysgwyr yn y categori hwn ddod i ysgolion neu leoliadau ond dylid eu cefnogi i weithio neu i ddysgu o gartref.

Staff neu ddysgwyr sy'n 'agored i niwed yn glinigol'

Yng nghyd-destun COVID-19, mae risg uwch na'r cyfartaledd oherwydd COVID-19 i unigolion sy'n agored i niwed yn glinigol. Mae'r categori hwn yn cynnwys pobl dros 70 oed, menywod beichiog a'r rheini sydd ag amrywiaeth o gyflyrau iechyd cronig. Cynghorir menywod beichiog yn benodol i weithio gartref ar ôl 28 wythnos o gyfnod beichiogrwydd.

Mae pobl sy'n perthyn i'r categori hwn yn cael mynd allan i weithio ond dylent weithio gartref os yw'n bosibl. Os bydd staff neu ddysgwyr yn dod i'r ysgol neu i'r lleoliad, rhaid cymryd gofal ychwanegol i sicrhau bod yr unigolion agored i niwed, a'r rheini sydd o'u hamgylch yn glynu wrth ganllawiau cadw pellter cymdeithasol caeth. Byddem ond yn disgwyl i ddysgwyr agored i niwed ddod i'r ysgol neu i'r lleoliad os bydd eu rhieni/gofalwyr yn cytuno i hynny.

Os nad yw'n glir a yw eu cyflwr iechyd yn golygu y dylent fod yn gwarchod ai peidio, dylai staff, rhieni a gofalwyr ofyn am gyngor gan eu meddyg teulu neu eu meddyg ysbyty. Dylai ysgolion weithio gydag awdurdodau lleol i daflu goleuni ar ymholiadau sy'n ymwneud â phresenoldeb staff.

Adnodd Asesu Risg COVID-19 Cymru Gyfan ar gyfer y Gweithlu - BAME

Mae Adnodd Asesu Risg COVID-19 Cymru Gyfan ar gyfer y Gweithlu wedi cael ei ddylunio i gael ei ddefnyddio gan yr holl staff iechyd a gofal cymdeithasol y credir eu bod yn agored i niwed neu mewn risg, dim ots beth yw eu hethnigrwydd. Mae'r adnodd yn rhoi sylw i ffactorau risg unigol.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i addasu'r adnodd hwn i gefnogi gweithluoedd addysg. Cyn y gwaith hwnnw, mae modd defnyddio'r adnodd i helpu aelodau o staff i ystyried eu statws iechyd a lles eu hunain, ac mae'n helpu gweithwyr a chyflogwyr i adnabod, i asesu ac i drafod y risgiau a'r camau mae modd eu cymryd i'w lliniaru:

- **Adnodd asesu risg COVID-19 ar gyfer y gweithlu**

Byw gyda rhywun sy'n gwarchod neu sy'n agored i niwed

Os yw dysgwr neu aelod o staff yn byw gyda rhywun sy'n agored i niwed neu'n eithriadol o agored i niwed, dylent ond ddod i'r ysgol neu i'r lleoliad pan fyddant yn gallu cadw pellter cymdeithasol a bod y dysgwr yn gallu deall a dilyn y cyfarwyddiadau hynny. Efallai na fydd hyn yn bosibl i blant ifanc iawn neu blant hŷn sydd heb y gallu i ddilyn y cyfarwyddiadau ar gadw pellter cymdeithasol. Yn yr achosion hynny, nid ydym yn disgwyl i'r plant hynny fod yn bresennol a dylid eu cefnogi i ddysgu gartref. Yn yr un modd, ni fyddem yn disgwyl i unrhyw staff sy'n agored i niwed ac sy'n bresennol fod yn gweithio gyda phlant nad yw'n rhesymol disgwyl iddynt gadw pellter cymdeithasol.

Dysgwyr a staff sy'n aros gartref

Pan na fydd plant yn dod i'r ysgol neu i'r lleoliad, dylid paratoi darpariaeth i sicrhau eu bod yn gallu parhau i ddysgu o bell. Caiff hyn ei gefnogi drwy **Cadw'n Ddiogel, Dal ati i Ddysgu**. Pan na fydd staff yn gallu dod i'r ysgol neu i'r lleoliad, mae disgwyl y byddent yn cefnogi gyda'r gwaith cynllunio a'r dysgu o bell. Os bydd aelod o staff yn gallu gweithio gartref, dylid cael trafodaeth rhwng y cyflogwr a'r cyflogai ynghylch beth sy'n rhesymol i'r oedolyn sy'n gwarchod ei wneud a pha gefnogaeth sydd ei hangen ar y cyflogai.

Penderfynu ar gapasiti a'i reoli

Bydd angen i ysgolion ac i leoliadau asesu faint o ddysgwyr byddant yn gallu eu derbyn ar y safle gan gadw pellter cymdeithasol. Bydd y canllawiau hyn yn cael eu diweddaru i gefnogi ysgolion a lleoliadau i baratoi ar gyfer yr hydref.

Mae hi'n hanfodol bod ysgolion a lleoliadau yn gweithio gyda'u hawdurdod lleol i ddeall capasiti: faint o ddysgwyr mae modd eu derbyn ar yr un pryd, gan gadw pellter cymdeithasol yn briodol.

Bydd nifer y dysgwyr a fydd yn gallu dod i unrhyw ysgol yn amrywio yn ôl cyd-destun yr ysgol a'r lleoliad. Bydd y capasiti'n dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys: cynllun yr ystafelloedd, nifer a maint yr ystafelloedd mwy sy'n cael eu rhannu (fel neuadd a ffreutur) a faint o le sydd ar gael yn yr awyr agored.

Yn ymarferol, disgwylir y bydd capasiti ysgol neu leoliad yn golygu yn gyffredinol y bydd traean, ar y mwyaf, o ddysgwyr yn bresennol ar unrhyw adeg.

Disgwylir yn y rhan fwyaf o ysgolion y bydd disgyblion yn cael cyfle i fynd i'r ysgol dair gwaith cyn gwyliau'r haf, ond mewn rhai ysgolion gallai hynny fod yn fwy.

Fodd bynnag, efallai y bydd angen amser ar ysgolion a lleoliadau i gyrraedd y capasiti gweithredu uchaf maent yn ei nodi ac, os oes angen, dylid edrych ar ymgyrraedd at hyn. Bydd angen i ysgolion/lleoliadau ystyried sut caiff hyn ei reoli, er enghraifft, traean o ddysgwyr yn dod am gyfanswm o wythnos dros gylch o dair wythnos.

Byddwn yn egluro'r disgwyliadau ar gyfer tymor yr hydref ac yn rhoi rhagor o gymorth ynghylch sut dylai ysgolion a lleoliadau reoli capasiti yn nes ymlaen yn ystod y tymor hwn.

Dylai ysgolion a lleoliadau hefyd weithio gyda'u hawdurdod lleol (a'r awdurdod esgobaethol yn achos ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir) i ganfod sut byddai modd ehangu capasiti yn y tymor hwy, fel defnyddio adeiladau dros dro neu leoliadau ychwanegol y tu hwnt i safle'r ysgol fel cyfleusterau dan berchnogaeth gyhoeddus neu leoliadau addysg eraill. Mae hyn yn arbennig o bwysig i ysgolion a lleoliadau mewn adeiladau heb lawer o gapasiti.

Bydd hefyd angen ystyried faint o staff fydd ar gael, gan gofio am y rheini na fyddant yn gallu bod yn bresennol am resymau iechyd (gweler uchod). Dylai ysgolion a lleoliadau weithio'n agos gydag awdurdodau lleol (a'r awdurdod esgobaethol fel sy'n briodol) i ddatrys unrhyw broblemau o ran capasiti staffio gan gynnwys cynlluniau wrth gefn ar gyfer y rheini sy'n hunanynysu oherwydd symptomau neu ganlyniad positif.

Byddwn yn rhoi rhagor o ganllawiau a chefnogaeth ar reoli capasti ar gyfer tymor yr hydref.

Defnyddio'r cyfnod pontio

Dylai ysgolion a lleoliadau ddefnyddio'r cyfnod rhybudd o dair wythnos fel cyfnod pontio, er mwyn paratoi i gynyddu gweithrediadau ar 29 Mehefin. Yn ystod y cyfnod hwn, disgwylir i'r staff sydd ar gael i ddod i'r safle am o leiaf rhywfaint o'r cyfnod, er mwyn iddynt ymgyfarwyddo â'r addasiadau i'r gweithrediadau ac i'r cynllun, ymarfer cadw pellter cymdeithasol a chynllunio ar gyfer y dysgu a'r addysgu.

Darpariaeth hybiau presennol

Wrth i weithrediadau gynyddu dros dymor yr haf, byddem yn disgwyl i blant sy'n defnyddio hybiau symud yn ôl i'w hysgol neu eu lleoliad eu hunain. Ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n defnyddio darpariaeth hybiau ar hyn o bryd, disgwylir y dylai ysgolion a lleoliadau barhau i gynnig darpariaeth ychwanegol ar gyfer y dysgwyr hynny, ochr yn ochr â'r dysgu y mae ganddynt hawl iddo, am weddill tymor yr haf.

Dylai ysgolion weithio'n agos gyda rhieni/gofalwyr ac awdurdodau lleol i ddeall os oes angen hyn. Efallai y bydd angen cynnig lle i blant staff dysgu yn eu hysgol neu eu lleoliad eu hunain er mwyn i'r staff allu bod yn bresennol. Bydd angen i awdurdodau lleol weithio'n agos gyda'r ysgolion a'r lleoliadau sy'n gweithredu fel hybiau i reoli'r newid hwn.

Byddwn yn egluro'r disgwyliadau y tu hwnt i dymor yr haf maes o law. Nid oes disgwyl i ysgolion barhau i ddarparu hybiau dros wyliau'r haf. Caiff awdurdodau lleol wneud trefniadau eraill ond nid oes disgwyl i hyn gael ei reoli gan staff ysgol.

Dylai ysgolion a lleoliadau hefyd gofio efallai y bydd angen darpariaeth ar gyfer plant agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol os bydd ail gynnydd yn lefel y trosglwyddo a chyfyngiadau symud. Bydd rhagor o ganllawiau'n cael eu darparu am hyn.

Cadw pobl yn ddiogel ac yn iach

Bydd staff mewn ysgolion a lleoliadau'n ymwybodol iawn o anghenion eu cydweithwyr, eu dysgwyr a'r teuluoedd. Mae'n bosibl y byddant dan bwysau emosiynol, ariannol a seicolegol ychwanegol ar hyn o bryd. Ni ellir gorbwysleisio hyn. Mae dysgwyr yn fwy tebygol o fod yn poeni ac mae'r newidiadau i'w harferion bob dydd a goblygiadau'r cyfyngiadau symud yn fwy tebygol o effeithio ar eu hiechyd a'u lles. Dros amser, mae'r dysgwyr a'r staff hefyd yn fwy tebygol o ddod ar draws achosion o salwch difrifol a phrofedigaeth.

Mae awdurdodau lleol eisoes yn gweithio gydag ysgolion a lleoliadau i ystyried y ffordd orau o gefnogi anghenion lles parhaus yr holl ddysgwyr drwy'r cyfnod hwn.

Er mwyn sicrhau diogelwch a lles pawb dan sylw, mae hi'n hanfodol hefyd bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r cyngor gwyddonol arbenigol sy'n cael ei roi.

Er bod staff, dysgwyr a rhieni/gofalwyr o bosibl yn poeni am y risgiau, mae hi'n bwysig cofio y bydd darpariaeth yn fwy diogel o lawer drwy ddilyn y canllawiau. Bydd y risg o drosglwyddo'r haint yn is drwy ddilyn mesurau cadw pellter cymdeithasol, hylendid a hunanynysu os oes gan rywun symptomau, neu os oes gan rywun o'r un aelwyd symptomau. Mae'r strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu yn hollbwysig i gefnogi hyn.

Hylendid

Dylai ysgolion a lleoliadau sicrhau bod yr holl staff a dysgwyr yn golchi eu dwylo'n rheolaidd a bod y cyfleusterau hyn ar gael. Dylid golchi dwylo gyda dŵr sy'n rhedeg a sebon am o leiaf 20 eiliad. Dylai'r staff hefyd sicrhau bod y dysgwyr yn cael eu hatgoffa o dechnegau golchi dwylo effeithiol. Dylid golchi dwylo yn rheolaidd gan gynnwys:

- wrth gyrraedd ac wrth adael yr ysgol neu'r lleoliad
- cyn ac ar ôl trin bwyd
- cyn ac ar ôl trin gwrthrychau a chyfarpar sydd efallai wedi cael eu defnyddio gan eraill
- os bu unrhyw gyswllt corfforol
- ar ôl i bobl chwythu eu trwyn, disian neu beswch.

Dylid rhoi'r flaenoriaeth i olchi dwylo yn hytrach na defnyddio hylif diheintio dwylo ac ni ddylid defnyddio hylif diheintio dwylo yn lle golchi dwylo. Efallai y bydd angen darparu hylif diheintio dwylo sydd ag o leiaf 60 y cant ohono'n alcohol os nad yw'n ymarferol golchi dwylo. Gallai hyn fod wrth fynedfa'r ysgol neu'r lleoliad er enghraifft. Wrth osod hylif diheintio dwylo, dylai hyn ystyried diogelwch y dysgwyr.

Dylai dysgwyr a staff beswch neu disian i'w penelin. I'r graddau sy'n bosibl, dylid eu hannog i beidio â chyffwrdd eu hwyneb, yn enwedig wrth ddefnyddio hances papur neu benelin i beswch neu disian.

Dylai ysgolion a lleoliadau sicrhau bod help ar gael i ddysgwyr sy'n ei chael hi'n anodd golchi eu dwylo'n annibynnol. Dylai ymarferwyr ystyried sut mae annog dysgwyr ifanc i ddysgu ac ymarfer yr arferion hyn drwy gemau, caneuon ac ailadrodd.

Mae angen i awdurdodau lleol weithio'n agos gyda'u hysgolion i sicrhau bod cynnyrch glanhau a hylendid ar gael. Bydd angen i hyn ystyried faint sydd ar gael a blaenoriaethu cyfarpar.

Dylid cyfnewid cyn lleied â phosibl o wrthrychau rhwng unigolion, gan gynnwys staff, rhieni/gofalwyr a dysgwyr.

Dylai staff hefyd fod yn ymwybodol o'r amgylchedd ffisegol a sut mae modd rheoli hwn i gefnogi iechyd a lles dysgwyr a staff, er enghraifft drwy gadw ffenestri ar agor i gael awyr iach a goleuni naturiol yr haul. Pan fo'n bosibl dylid cynyddu llif yr aer a'r awyru.

Dysgwyr neu staff sy'n dangos symptomau ar y safle

Dylai fod gan ysgolion a lleoliadau weithdrefnau clir os bydd dysgwyr neu staff yn dechrau dangos symptomau ar y safle. Mae angen i'r staff a'r rhieni/gofalwyr ddeall y rhain yn llawn. Dylid cadw'r rheini sydd â symptomau ar wahân nes bod modd i rywun eu casglu a mynd â nhw adref. Yn ddelfrydol, dylai hyn fod mewn ystafell ar wahân, wedi'u goruchwylio o ddau fetr i ffwrdd. Os oes angen cyngor clinigol dylent (neu'r aelod o'r staff neu'r rhiant/gofalwr) fynd ar-lein i **GIG 111 Cymru** (neu ffonio 111 os nad oes mynediad i'r rhyngrwyd).

Os bydd dysgwyr neu staff sydd â symptomau wedi cyffwrdd unrhyw arwynebau, dylid glanhau'r arwynebau hynny'n ofalus.

Dylai unrhyw un sydd â symptomau aros gartref am 7 niwrnod a dylent drefnu i gael prawf. Dylai unrhyw un sy'n byw gyda rhywun sydd â symptomau ond sy'n teimlo'n iawn aros gartref am 14 diwrnod o'r diwrnod pan aeth y person cyntaf yn sâl.

Y cyngor ar hyn o bryd yw nad oes angen sgrinio tymheredd. Gall rhieni/gofalwyr dysgwyr gadw llygad am arwyddion o dymheredd uchel. Ni fydd sgrinio yn dod o hyd i bob achos o COVID-19 a gallai'r broses o fesur tymheredd gynyddu risg y staff o drosglwyddo'r haint. Byddwn yn cadw golwg fanwl ar hyn. Dylai staff wrth gwrs gadw llygad am newidiadau yn nhymheredd plant ac am arwyddion o wres.

Cadw pellter cymdeithasol

Mae angen i bob ysgol a lleoliad sicrhau bod trefniadau **cadw pellter cymdeithasol** a hylendid ar waith ac yn cael eu cefnogi. Rhaid i staff ddilyn y canllawiau yn yr adran hon ar gadw pellter cymdeithasol sy'n rhoi canllawiau i ysgolion ac i leoliadau ynghylch eu dyletswydd i sicrhau mesurau cadw pellter cymdeithasol o dan Reoliadau'r Coronafeirws.

Mae'r canllawiau hyn wedi cael eu datblygu nid yn unig i helpu ysgolion a lleoliadau i gadw dysgwyr a staff yn ddiogel, ond eu teuluoedd hefyd. Mae mesurau diogelwch yn helpu i sicrhau bod y gadwyn heintio yn cael ei thorri. Mae hi'n bwysig i staff gofio bod cadw pellter cymdeithasol yn berthnasol pan fyddant yn rhyngweithio â staff eraill yn ogystal â dysgwyr: mae hi'n hawdd anghofio hyn.

Er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo'r haint, dylai'r un staff ryngweithio â'r un grŵp o ddysgwyr dros amser pan fo'n bosibl. Mae hyn yn helpu i leihau'r risg o drosglwyddo'r haint rhwng grwpiau ac mae'n cyfyngu ar effaith unrhyw hunanynysu sydd ei angen oherwydd bod aelod o staff neu ddysgwr yn cael canlyniad positif o dan **Profi, Olrhain, Diogelu** (gweler isod).

Mewn ysgolion cynradd, rydym yn cydnabod nad yw'n ymarferol disgwyl i ddysgwyr gadw pellter cymdeithasol cyson o ddau fetr. Fodd bynnag, dylai staff geisio sicrhau bod rhywfaint o bellter rhwng y dysgwyr. Mae hyn yn seiliedig ar dystiolaeth a chyngor meddygol sy'n awgrymu bod y risg o ddal yr haint a'i drosglwyddo yn is ymysg plant. Dylai ymarferwyr gydnabod na fydd dysgwyr iau yn gallu cadw pellter cymdeithasol bob amser.

Ar gyfer plant oed cynradd, efallai y bydd ysgolion a lleoliadau eisiau ystyried caniatáu i grwpiau bach cyson (dim mwy na 8) gymysgu.

Dylai'r grwpiau hyn aros yr un fath oherwydd bydd newid yr aelodau'n cynyddu'r risg o drosglwyddo'r haint.

Ar gyfer plant oed ysgol uwchradd, dylai ysgolion a lleoliadau geisio sicrhau y cedwir pellter cymdeithasol o ddau fetr pan fo'n bosibl. Mae hyn yn bwysicach i ddysgwyr hŷn.

Yn ddelfrydol, pan fyddant dan do, dylai'r dysgwyr aros yn yr un ystafell a pheidio â symud o un ystafell i'r llall fel y byddent yn ei wneud fel rheol. Dylai dysgwyr gael cymaint o egwyl â phosibl a chael amseroedd egwyl yn yr awyr agored. Dylai staff symud cyn lleied â phosibl rhwng ystafelloedd.

Pan fo'n bosibl, dylai ysgolion ystyried:

- osgoi cael nifer o grwpiau o ddysgwyr yn rhannu'r un lle heb lanhau
- osgoi cael nifer o grwpiau o ddysgwyr yn rhyngweithio neu'n cael y cyfle i gymysgu
- i osgoi cynyddu'r risg o drosglwyddo'r haint rhwng grwpiau, efallai y byddai'n well dod â grŵp o ddysgwyr i mewn am gyfnodau hirach gydag o leiaf wythnos o doriad yn y canol, yn hytrach na nifer o slotiau byrrach dros y pedair wythnos.

Ystyriaethau o ran amseru

Dylai ysgolion geisio stagro amseroedd cyrraedd a gadael yn ogystal ag amseroedd cinio ac amseroedd egwyl i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o staff a dysgwyr yn symud ac yn ymgynnull yn yr un lle ar yr un pryd.

Mae hyn yn berthnasol i deuluoedd yn ogystal ag i ddysgwyr ac i staff. Rhaid i ysgolion a lleoliadau hefyd ystyried diogelwch a chadw pellter cymdeithasol wrth i'r dysgwyr gael eu gollwng a'u casglu. Dylai ysgolion a lleoliadau weithio i sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn deall ac yn dilyn mesurau cadw pellter cymdeithasol wrth ollwng a chasglu eu plant.

Cylchdroi dysgwyr a staff

Oherwydd y cyfyngiadau ar gapasiti, bydd angen i ddysgwyr ddod i'r ysgol mewn blociau neu garfanau, er enghraifft grŵp gwahanol o ddysgwyr bob wythnos. Nid oes angen i hyn gael ei bennu yn ôl grŵp blwyddyn, er mwyn caniatáu i blant o'r un aelwyd ddod i'r ysgol ar yr un pryd. Dylid hefyd ystyried hyn ar gyfer plant gweithwyr hanfodol a phlant agored i niwed.

Dylai ysgolion hefyd ystyried sut gallai hyn weithio yn yr hydref. Bydd rhagor o ganllawiau'n cael eu darparu maes o law.

Profi, Olrhain, Diogelu

Cafodd y **strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu** newydd a gyhoeddwyd ar 13 Mai ei rhoi ar waith ar draws Cymru ar 1 Mehefin..

Mae'r strategaeth hon yn nodi cam nesaf ein dull gweithredu i fynd i'r afael â'r coronafeirws; profi pobl sydd â symptomau yn y gymuned, olrhain y rheini sydd wedi cael cyswllt agos â phobl sydd wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws, a diogelu teulu, ffrindiau a'n cymuned drwy hunanynysu.

Mae Profi, Olrhain, Diogelu yn gweithio drwy:

- brofi pobl sydd â symptomau'r coronafeirws, gofyn iddynt ynysu oddi wrth deulu, ffrindiau a'u cymuned a chymryd prawf ac aros am ganlyniad. Gall pobl wneud cais am brawf eu hunain neu ar ran aelod o'u haelwyd sydd â symptomau. Mae hyn yn cynnwys oedolion a phlant gan gynnwys plant dan 5 oed. Mae gwybodaeth a **chanllawiau** i staff ar sut mae gwneud cais am brawf ar gael ar **wefan Llywodraeth Cymru**
- olrhain y bobl sydd wedi cael cyswllt agos â'r bobl sydd wedi cael canlyniad positif am y feirws, gan fynnu eu bod yn cymryd rhagofalon drwy hunanynysu. Mae rhagor o wybodaeth ar gael **ar wefan Llywodraeth Cymru** am olrhain cysylltiadau a sut bydd yn gweithio
- os nad yw'r symptomau o ganlyniad i'r coronafeirws, sicrhau bod unigolion a'r rheini maen nhw wedi cael cyswllt â nhw yn gallu dychwelyd i'w trefn arferol cyn gynted ag sy'n bosibl
- darparu cyngor a **chanllawiau**, yn enwedig os yw'r sawl sydd â symptomau neu'r bobl maen nhw wedi bod mewn cyswllt â nhw yn gwarchod, mewn risg, yn agored i niwed neu yn y risg fwyaf.

Drwy leihau'r trosglwyddo yn ein cymunedau, a drwy fynd ati'n gyflym i adnabod ac i ynysu'r rheini sydd mewn perygl o ddal COVID-19 gan gysylltiad agos neu gan aelod o'r teulu, byddwn yn helpu i agor ysgolion, colegau a lleoliadau blynyddoedd cynnar yn ehangach.

Dylai ysgolion a lleoliadau atgyfnerthu'r negeseuon hyn ac yn benodol dylent atgoffa pawb sy'n dangos symptomau y dylent hunanynysu ac archebu prawf. Dylai'r rheini sy'n byw gyda rhywun sydd â symptomau hefyd hunanynysu.

Os ceir canlyniad positif, bydd swyddog olrhain cysylltiadau yn cysylltu â'r sawl a gafodd y prawf i helpu i ganfod cysylltiadau posibl. Bydd ail swyddog olrhain cysylltiadau wedyn yn cysylltu â'r cysylltiadau hynny ac yn eu cynghori i hunanynysu am 14 diwrnod ers y tro diwethaf iddynt fod mewn cyswllt â'r sawl a gafodd brawf positif. Dim ond os ydynt yn datblygu symptomau y bydd angen i'r bobl hyn wneud y prawf.

Ystyrir bod pobl wedi bod yn gysylltiadau posibl os oeddent mewn cyswllt â'r sawl a gafodd ganlyniad positif yn ystod y cyfnod a oedd yn dechrau hyd at ddau ddiwrnod cyn i'r symptom ymddangos a gan orffen pan ddechreuodd yr unigolyn ynysu gartref. Mae hyn yn seiliedig ar ein dealltwriaeth ar hyn o bryd o'r prif gyfnod o heintusrwydd.

Caiff cysylltiad ei ddiffinio fel rhywun sydd wedi cael cyswllt agos yn ystod y cyfnod hwn, yn benodol:

- mae wedi bod yn nes nag un metr i'r unigolyn sydd wedi cael prawf positif ac roedd yr unigolyn wedi peswch arno, cafodd sgwrs wyneb yn wyneb â'r unigolyn, roedd wedi cyffwrdd croen yr unigolyn â'i groen ei hun, neu cafodd gyswllt o fath arall o fewn un metr am un munud neu fwy

- mae wedi treulio dros 15 munud yn nes na dau fetr i'r unigolyn sydd wedi cael prawf positif
- mae wedi teithio mewn cerbyd gyda'r sawl sydd wedi cael canlyniad positif.

Pan fydd staff wedi dilyn y rheolau cadw pellter cymdeithasol ac wedi dilyn y mesurau hylendid yn ystod eu gwaith a, phan roedd angen, eu bod wedi defnyddio cyfarpar diogelu personol neu wedi gweithio y tu ôl i sgrin neu raniad priodol, ni fyddent yn cael eu hystyried fel cysylltiad at y dibenion hyn.

Nid yw prawf positif yn golygu bod angen cau'r safle. Mae'r broses o brofi ac olrhain cysylltiadau yn rhan o'r 'normal newydd' a phan fydd ysgolion a lleoliadau'n dilyn y canllawiau hyn yn ofalus, nid oes rheswm dros boeni.

Beth fydd yn digwydd os bydd achosion yn yr ysgol?

Os bydd sawl achos o COVID-19 mewn ysgol, yna bydd arbenigwyr o'r GIG a llywodraeth leol yn cydweithio i atal yr haint rhag trosglwyddo ymhellach yn yr ysgol. Bydd hyn yn golygu canfod pwy sydd wedi bod mewn cyswllt â'r haint, unrhyw blentyn neu aelod o staff sydd â risg uwch a darparu cyngor rheoli haint wedi'i deilwra. Bydd cyngor ar sail asesiad o bob sefyllfa unigol yn cael ei roi i gefnogi'r ysgol i atal lledaeniad pellach.

Dylid trin y broses yn sensitif ac yn gyfrinachol, er enghraifft ni ddylai ysgolion ddatgelu pwy ydy unrhyw un.

Mae rhagor o wybodaeth a chwestiynau ac atebion am Profi, Olrhain, Diogelu ar gael **ar wefan Llywodraeth Cymru**.

Cyfarpar diogelu personol

Mae hi'n bwysig cofio bod tystiolaeth gref sy'n dangos mai cadw pellter corfforol, hylendid dwylo a hylendid resbiradol (dal peswch neu disian mewn hances bapur a chuddio'r geg a'r trwyn gyda phenelin neu lawes) yw'r ffyrdd mwyaf effeithiol o atal y coronafeirws rhag lledaenu.

Mae hylendid dwylo yn hollbwysig cyn ac ar ôl bob cyswllt uniongyrchol gyda phlentyn neu berson ifanc, ac ar ôl glanhau cyfarpar a'r amgylchedd.

Felly nid oes angen defnyddio cyfarpar diogelu personol wrth gynnal gweithgareddau addysgol arferol mewn ystafell ddosbarth/lleoliadau ysgol.

Mae'r rhestr isod yn nodi pryd y gallai fod angen defnyddio cyfarpar diogelu personol.

Gweithgareddau arferol

- **Dim angen cyfarpar diogelu personol** wrth gynnal gweithgareddau addysgol arferol mewn ystafell ddosbarth neu leoliad ysgol.

Achos posibl o'r coronafeirws (COVID-19)

- **Dylid gwisgo menig, ffedogau a masgiau llawfeddygol atal hylif** os bydd plentyn neu berson ifanc yn mynd yn sâl gyda symptomau COVID-19 ac y bydd angen gofal personol uniongyrchol ar y plentyn neu'r person ifanc.
- Dylid hefyd gwisgo **cyfarpar diogelu'r llygaid** os bydd asesiad risg yn pennu bod risg y bydd rhywbeth yn sblasio i'r llygaid er enghraifft drwy beswch, poeri neu daflu i fyny.
- Dylid gwisgo **menig a ffedogau** wrth lanhau'r ardaloedd lle mae rhywun y credir sydd â COVID-19 wedi bod.

Gofal personol

- **Dylid gwisgo menig a ffedogau** wrth ddarparu gofal personol i blentyn neu i berson ifanc. Mae hyn yn gallu cynnwys gofal ymarferol personol fel ymolchi, defnyddio'r toiled neu gymorth cyntaf a rhai gweithdrefnau clinigol fel cymorth bwydo.
- Dylid hefyd gwisgo **masg llawfeddygol atal hylif a chyfarpar diogelu'r llygaid** os bydd asesiad risg yn pennu bod risg y bydd rhywbeth yn sblasio i'r llygaid megis drwy beswch, poeri neu daflu i fyny.
- Dylid defnyddio **menig, gŵn sy'n atal hylif, masg FFP3 a chyfarpar diogelu'r llygaid** wrth ymgymryd â gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosolau fel sugno.
- Dylid defnyddio **menig a ffedogau** wrth lanhau cyfarpar neu arwynebau y mae'n bosibl eu bod wedi cael eu halogi gan hylifau o'r corff fel poer neu secretiadau anadlol.

Mae canllawiau hefyd yn nodi y dylid gwisgo menig a ffedog wrth lanhau ardaloedd lle mae rhywun y credir sydd â COVID-19 wedi bod.

Dylai staff mewn lleoliadau addysg ddefnyddio cyfarpar diogelu personol ar sail asesiad clir o'r risg, gan ystyried pob lleoliad unigol ac anghenion y dysgwr unigol. Mae gan ysgolion, lleoliadau ac awdurdodau lleol brosesau asesu risg eisoes mewn lle a dylid defnyddio'r rhain i weld a oes angen defnyddio cyfarpar diogelu personol ai peidio. Ar ôl cynnal unrhyw asesiad risg, os daethpwyd i'r casgliad bod angen cyfarpar diogelu personol, dylai fod ar gael yn hawdd. Mae'r **Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch** wedi darparu rhagor o wybodaeth:

- **Using PPE at work during the coronavirus outbreak** (Saesneg yn unig)

Dylai'r holl staff ddeall sut mae gwisgo a thynnu cyfarpar diogelu personol yn y drefn iawn, gwaredu'r gwastraff yn ddiogel a defnyddio camau hylendid dwylo cywir i leihau'r risg o drosglwyddo'r haint ymlaen. Mae rhagor o ganllawiau ar gael yn Atodiad 6 **Canllawiau Rheoli ac Atal Heintiau ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant**.

Beth bynnag fo'r achos, dylid bob amser golchi dwylo cyn gwisgo ac ar ôl tynnu cyfarpar diogelu personol. Dylai ysgolion a lleoliadau gysylltu â'u hawdurdod lleol i gael cyfarpar diogelu personol ar gyfer yr uchod.

Defnyddio gorchudd wyneb at ddibenion iechyd

Mae Prif Swyddog Meddygol Cymru wedi dweud yn glir nad oes tystiolaeth i gefnogi argymell gwisgo gorchudd wyneb anfeddygol yn gyffredinol yn y gymuned. Mae gorchuddion wyneb anfeddygol yn cael eu hargymell os nad oes modd cadw pellter cymdeithasol.

Nid oes modd eu cymharu gyda'r mesurau llawer mwy effeithiol fel cadw pellter cymdeithasol a hylendid dwylo.

Dylai ysgolion sicrhau eu bod yn trefnu'r amgylchedd a'r ffordd y maent yn gweithredu i sicrhau bod modd cadw pellter cymdeithasol drwy gydol y dydd.

Mae meddwl am les y dysgwyr yn hollbwysig wrth ystyried a ddylai staff neu blant wisgo gorchudd wyneb ai peidio. Ni ddylai neb na fyddant efallai'n gallu defnyddio gorchudd wyneb yn unol â'r cyfarwyddiadau (e.e. plant ifanc neu'r rheini sydd ag anghenion addysgol arbennig) wisgo gorchudd o'r fath gan y gallai hynny gynyddu'r risg o drosglwyddo'r haint.

Gwnaed **datganiad** gan y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 9 Mehefin 2020 yn nodi'r cyngor diweddaraf.

Masgiau wyneb a'r goblygiadau i blant byddar

Dylid ystyried yn ofalus effaith gwisgo masg wyneb ar blentyn byddar, gan fod cyfathrebu i lawer o bobl fyddar yn dibynnu'n rhannol ar allu gweld wyneb rhywun yn glir. Mae Cymdeithas Genedlaethol y Plant Byddar wedi darparu'r awgrymiadau canlynol ar gyfer cyfathrebu, a allai fod yn ddefnyddiol i staff yn hyn o beth:

- **Face masks: tips for communicating with deaf children and young people** (Facebook)
- **The impact of face masks on deaf children** (National Deaf Children's Society)

Cefnogi lles dysgwyr a staff

Dylid rhoi'r brif flaenoriaeth i les dysgwyr a staff wrth gynyddu'r gweithrediadau yn yr ysgol neu yn y lleoliad. Mae cyngor ar ddysgu a lles ar gael yn y Canllawiau dysgu.

Lles dysgwyr

Bydd gweithrediad ysgol neu leoliad yn cael effaith bwysig ar les corfforol, meddyliol ac emosiynol a chymdeithasol dysgwyr. Wrth gynllunio i gynyddu gweithrediadau, dylai ysgolion a staff ystyried sut mae hyn yn effeithio ar les.

Er enghraifft, dylai'r staff atgyfnerthu arferion hylendid a chadw pellter cymdeithasol yn gadarnhaol yn hytrach na stigmateiddio camgymeriadau. Yn yr un modd, dylai'r amserlen a'r cynllun sicrhau bod cyfleoedd priodol i gael amseroedd egwyl ac i dreulio amser yn yr awyr agored.

Bydd ysgolion a lleoliadau'n cadw llygad am ddysgwyr sydd mewn gofid ac yn eu cefnogi. Dylid cynllunio a gweithredu gofal bugeiliol a chymorth oherwydd profedigaeth.

Mae'r canllawiau dysgu yn cynnwys rhagor o ganllawiau manwl am gefnogi lles drwy ddysgu.

Cefnogaeth ddwys/arbenigol

Ar gyfer y dysgwyr hynny y mae angen cefnogaeth sy'n fwy dwys a/neu arbenigol arnynt, dylai hyn fod ar gael mewn ffordd briodol ac amserol. Dylai awdurdodau lleol a gwasanaethau ar draws y GIG a gofal cymdeithasol weithio gydag ysgolion a lleoliadau i ganfod ac i gefnogi anghenion dysgwyr. Yn hyn o beth mae llawer o arferion da eisoes ar gael gan gynnwys:

- y cyllid sydd wedi cael ei roi i awdurdodau lleol eleni i ehangu gwasanaethau cwnsela yn yr ysgol ac yn y gymuned; hyfforddi athrawon ar les dysgwyr a chyflwyno ymyriadau cyffredinol ac wedi'u targedu mewn ysgolion
- gwaith yr Hyb Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod i hyfforddi athrawon mewn ymarfer ar sail trawma ac i ddatblygu Gwasanaeth Straen Trawmatig Cymru gyfan. Mae hwn yn gweithredu fel cynllun gwella sy'n cynnig adnoddau, hyfforddiant a chyngor i uwchsgilio gweithwyr proffesiynol ym mhob sector i weithio gyda phobl drwy ddefnyddio triniaethau ar sail tystiolaeth ar gyfer trawma
- nyrsio ysgol, sydd wedi datblygu trefniadau gweithio agos gyda gwasanaethau seicoleg dros y blynyddoedd diwethaf ac sy'n darparu gwasanaethau galw heibio mewn ysgolion gan ddarparu mwy a mwy o gefnogaeth iechyd meddwl
- datblygu Matrics Cymru sydd wedi cael ei ddylunio i helpu i ddatblygu, cynllunio a darparu dull gweithredu ar draws Cymru i ddarparu gwasanaethau seicolegol i blant a'u teuluoedd
- adnoddau ychwanegol bydd ar gael i gefnogi pobl ifanc, athrawon ac arweinwyr, ac eraill. Mae hyn yn cynnwys canolbwyntio ar iechyd meddwl ac emosiynol a darparu cefnogaeth lles yn yr amgylchedd newydd. Cafodd y cyntaf o'r adnoddau hyn ei lansio ar 1 Mehefin sef **Pecyn cymorth iechyd meddwl person ifanc**, sy'n cynnwys amrywiaeth o adnoddau ar-lein sy'n gallu eu helpu drwy gyfnod y cyfyngiadau symud a'r tu hwnt. Mae'n cynnwys gwybodaeth am wefannau, apiau, llinellau cymorth a mwy sy'n cefnogi iechyd a lles meddyliol.

Bydd y mwyafrif o'r dysgwyr yn dilyn y rheolau ond efallai na fydd lleiafrif yn eu deall. Bydd dysgwyr ifanc, er enghraifft, yn tueddu i rannu cyfarpar a gwrthrychau, gan gyffwrdd a chofleidio heb feddwl. Mae hyn yn gallu bod yn arbennig o wir i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion arbennig, yn enwedig y rheini sydd ag anghenion corfforol ac sy'n cael llawer o gymorth drwy gyffwrdd. Dylai staff ysgolion arbennig ymgynghori â rhieni a gofalwyr am anghenion cefnogaeth penodol, a defnyddio eu disgresiwn yn hyblyg wrth gytuno ar y ffordd ymlaen ar gyfer dysgwyr penodol. Dylai hyn fod yn seiliedig ar asesiad risg clir, gan gydnabod y gallai fod yn fwy priodol i rai dysgwyr barhau i ddysgu o bell.

Lles y staff

Bydd angen i ysgolion a lleoliadau ystyried yr effeithiau posibl ar iechyd a lles staff ac arweinwyr, gan gynnwys y cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Dylai fod llwybrau clir er mwyn codi pryderon gyda'r rheolwyr a'r arweinwyr. Dylid rhoi mecanweithiau cefnogi clir ar waith, er enghraifft mynediad at raglenni cymorth i weithwyr ac i **Bartneriaeth Cefnogaeth Addysg** (Saesneg yn unig).

Dylai'r amserlen a'r rota gefnogi lles staff a dylid rhoi egwyl lles iddynt yn rheolaidd. Mae hi'n bwysig cydnabod hefyd ei bod hi'n bosibl na fydd angen i'r holl staff fod ar y safle, nid yn unig y rheini nad ydynt yn gallu bod yno am resymau iechyd, ond hefyd y staff hynny sy'n gweithio ar ddysgu o bell ar unrhyw ddiwrnod. Mae lleihau nifer y staff sydd ar safle yn gallu helpu i leihau'r risg o drosglwyddo'r haint.

Dylai awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu fod yn ymwybodol o les yr holl staff, gan gynnwys yr uwch arweinwyr. Mae hi'n naturiol y gallai fod angen mwy o gefnogaeth ar rai staff nag ar eraill yn ystod y cyfnod hwn. Bydd angen i uwch arweinwyr ystyried sut mae cefnogi:

- y rheini yr oedd hi'n anodd iddynt reoli'r cyfnod hir gartref ac sy'n poeni am orfod delio â phroblemau lles plant yn yr ystafell ddosbarth heb gefnogaeth.
- y rheini sydd wedi datblygu pryderon sy'n ymwneud â'r feirws a'u hiechyd a'u lles eu hunain (hy bod arnynt ofn dal y feirws yn yr ystafell ddosbarth)
- y rheini a oedd â phroblemau ymlaen llaw ac sydd o bosibl yn waeth o ganlyniad i'r pandemig COVID-19
- y rheini sydd wedi cael profedigaeth.

Mae COVID-19 yn ei gwneud hi'n bwysicach nag erioed ein bod yn cydnabod bod angen darparu gofod myfyriol i staff er mwyn prosesu a delio â phrofiadau anghyfforddus, ingol ac weithiau poenus gweithio gyda phlant, pobl ifanc, eu teuluoedd a'r systemau o'u hamgylch.

Pan na fydd hi'n bosibl cyflogi cwnselydd at y diben penodol hwn, bydd arweinwyr mewn ysgolion da yn rhoi cyfleoedd i staff drafod materion â nhw neu â'u cydweithwyr. Mae rhannu profiadau a thrafod teimladau ac emosiynau'n gallu dod o hyd i feysydd lle mae angen cefnogaeth ychwanegol ac mae'n ymarfer defnyddiol yn ei rinwedd ei hun i helpu pobl i gefnogi eu lles eu hunain.

Dylai awdurdodau lleol weithio gydag ysgolion a lleoliadau i gefnogi staff. Dylai pob rhan o'r system gydweithio i sicrhau bod lles staff yn cael ei gefnogi'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol (fel rheoli negeseuon, osgoi dyblygu gwaith ac osgoi gofynion diangen ar staff).

Dylai staff fod yn ymwybodol o **God Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol** Cyngor y Gweithlu Addysg ac efallai y bydd arnynt eisiau defnyddio'r canllawiau ymarfer da..

Diogelu

Bydd amgylchedd cartref a phrofiadau dysgwyr wedi bod yn wahanol yn ystod y cyfyngiadau symud a dylid atgoffa'r holl staff o'u dyletswyddau diogelu yn y canllawiau diogelu statudol ar gyfer lleoliadau addysg **Cadw dysgwyr yn ddiogel** a gyda **Gweithdrefnau Diogelu Cymru.**

Bydd rôl y person diogelu dynodedig yn hollbwysig a dylai'r holl staff a dysgwyr gael gwybod pwy yw'r person diogelu dynodedig a sut mae cysylltu â nhw. Bydd cadw pellter cymdeithasol yn golygu ei bod hi'n anoddach cael gafael ar oedolyn y mae rhywun yn ymddiried ynddynt, neu'r person diogelu dynodedig, felly dylai ysgolion a lleoliadau ystyried sut gall dysgwyr siarad yn breifat.

Yn ystod y camau cynnar, dylai ysgolion, lleoliadau a gwasanaethau plant barhau i gydweithio'n agos i sicrhau bod pob plentyn a theulu yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen. Bydd gan awdurdodau lleol amrywiaeth o arferion gwaith mewn lle i sicrhau bod partneriaid diogelu yn gallu cydweithio i gadw plant yn ddiogel. Mae cyfle nawr i gyfnerthu'r arferion gwaith hyn ymhellach.

Cyfleusterau a logisteg: rheoli'r lleoliad

Glanhau a diheintio

Hylendid cyffredinol a mesurau atal

Rhaid glanhau adeiladau'n rheolaidd. Dylid glanhau arwynebau caled gyda dŵr sebon cynnes neu'r cynnyrch glanhau arferol sy'n cael ei ddefnyddio. Dylid rhoi sylw penodol i ardaloedd ac arwynebau a gaiff eu cyffwrdd yn aml. Dylid glanhau'r ardaloedd hyn o leiaf unwaith y dydd ac yn amlach mewn ardaloedd sy'n cael eu defnyddio'n aml ar sail asesiad lleol, gan gynnwys ystafelloedd ymolchi, rheiliau, byrddau, teganau, cyfarpar, handlenni drysau, padiau gwthio, tapiau a photeli hylif diheintio dwylo.

Dylid glanhau ystafelloedd pan fydd grwpiau gwahanol yn defnyddio'r ystafell.

Dylai'r staff glanhau gadw pellter cymdeithasol oddi wrth ei gilydd ac oddi wrth staff a dysgwyr drwy'r amser.

Dylid rhoi hancesi papur mewn biniau ar wahân a'u gwaredu'n ddiogel. Dylid cael gwared â'r holl sbwriel bob dydd.

Glanhau pan fydd rhywun wedi dangos symptomau

Os bydd aelod o staff neu ddysgwr yn dangos symptomau COVID-19, dylid nodi'r holl ardaloedd lle mae'r unigolyn hwn wedi bod a'u cadw'n glir. Dylid rheoli'r ardal yn ffisegol pan fo'n bosibl hy gosod rhwystrau gydag arwyddion addas neu gadw'r ardal dan glo. Dylid glanhau'r ardal cyn ei defnyddio eto, gan ystyried y canllawiau ar lanhau mewn lleoliadau ar wahân i rai gofal iechyd **canllawiau**. Dylid rhoi sylw penodol i unrhyw ardal benodol lle bu'r unigolyn, h.y. ei ddesg yn ogystal â'r holl arwynebau eraill a gaiff eu cyffwrdd yn aml. Dylid cael gwared â'r holl deganau meddal oni bai fod y rhain wedi cael eu symud o'r neilltu yn barod fel mesur atal.

Os amheuir bod unrhyw wastraff wedi cael ei gyffwrdd gan rywun sydd â symptomau o COVID-19, boed yr achos yn un posibl neu wedi'i gadarnhau, dylid rhoi'r gwastraff hwnnw mewn bag gwastraff, ei gadw mewn lle diogel am 72 awr ac yna ei waredu gyda gwastraff arall.

Dylai'r staff glanhau ddeall y gofynion glanhau yn llawn. Dylai awdurdodau lleol weithio gydag ysgolion a lleoliadau i sicrhau bod y staff glanhau yn derbyn yr hyfforddiant, y cynnyrch a'r cyfarpar priodol a hynny mewn ffordd amserol.

Cludiant

Dylid ystyried y **canllawiau diweddaraf ar gludiant**. Pan fo'n bosibl, dylai rhieni a gofalwyr deithio gyda'u plentyn yn ôl ac ymlaen i'r ysgol, yn ddelfrydol drwy gerdded, ar feic, ar sgwter neu unrhyw ddull teithio llesol arall. Dylid cadw pellter cymdeithasol wrth deithio yn ôl ac ymlaen i'r ysgol. Dim ond os yw'n bosibl cadw pellter cymdeithasol y dylai pobl o ddim mwy na dau aelwydydd deithio gyda'i gilydd.

Gydag unrhyw gludiant ysgol, dylid rhoi'r flaenoriaeth i'r rheini nad ydynt yn gallu bod yn bresennol hebddo.

Rhaid i awdurdodau lleol asesu anghenion teithio dysgwyr dan 19 oed yn eu hardal. Mae hyn yn cynnwys y rheini y mae ganddynt ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu cludiant ar eu cyfer a'r rheini y gallai fod arnynt eisiau darparu cludiant yn ôl disgresiwn iddynt wrth asesu anghenion teithio. Rhaid i awdurdod hefyd ystyried:

- anghenion dysgwyr anabl a dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu
- unrhyw anghenion penodol sydd gan ddysgwyr sy'n 'derbyn gofal' gan yr awdurdod lleol neu a oedd yn arfer 'derbyn gofal' gan yr awdurdod lleol
- oed y dysgwr
- natur y llwybr mae disgwyl i'r dysgwr ei gymryd rhwng y cartref a'r lleoliad sy'n darparu'r addysg neu'r hyfforddiant. Wrth asesu anghenion teithio dysgwyr, rhaid i awdurdodau lleol ystyried y ffaith na ddylai'r trefniadau teithio a wneir o ganlyniad i'r asesiad achosi lefelau afresymol o straen, cymryd cyfnod afresymol na bod yn anniogel.

Dylai awdurdodau lleol weithio gydag ysgolion a lleoliadau i fesur y galw am gludiant ysgol a cheisio diwallu'r gofynion hyn. Ni fydd ysgolion ar agor i fwy nag un rhan o dair o'r dysgwyr ar unrhyw un adeg. Bydd angen i awdurdodau lleol ac ysgolion ystyried hyn ochr yn ochr ag ystyriaethau eraill wrth iddynt gynllunio pa ddysgwyr fydd yn bresennol a phryd.

Gwnaed cyhoeddiad gan y Gweinidog Iechyd a **Gofal Cymdeithasol ar 9 Mehefin 2020** yn amlinellu'r cyngor diweddaraf ynghylch gorchuddion wyneb, gan gynnwys yng nghyd-destun trafnidiaeth

Cynllunio a defnyddio'r lle sydd ar gael

Dylai'r ystafelloedd fod yn ddigon mawr i sicrhau bod pawb yn cadw pellter cymdeithasol yn unol â'r canllawiau. Dylai'r niferoedd ym mhob ystafell adlewyrchu faint o staff sydd ar gael a dylai'r niferoedd fod mor isel â phosibl.

Dylid trefnu'r seddi, y gemau a'r gweithgareddau mewn ffordd sy'n sicrhau bod modd cadw pellter cymdeithasol yn briodol ac sy'n lleihau cyswllt corfforol. Pan fo'n bosibl, dylid osgoi defnyddio ystafelloedd ar gyfer mwy nag un grŵp o ddysgwyr.

Dylid symud cyn lleied â phosibl rhwng ystafelloedd: yn ddelfrydol, pan fydd staff a dysgwyr dan do, dylent ddefnyddio'r un ystafell. Mae hyn yn osgoi'r risg o drosglwyddo'r haint o un ystafell i'r llall ac mae'n sicrhau bod pob un yn cael cyswllt â'r nifer isaf bosibl o bobl. Os bydd angen lle gwahanol sy'n cael ei rannu ar gyfer bwyta, dylid stagro'r amseroedd hyn er mwyn osgoi gorlenwi.

Pan fo'n bosibl, dylid mynd i mewn i'r gofod yn uniongyrchol o'r tu allan. Pan fydd yn rhaid defnyddio coridorau i gyrraedd y gofod, efallai y bydd ysgolion a lleoliadau eisiau ystyried defnyddio system unffordd neu farcio'r llawr i gadw traffig dysgwyr ar wahân pan fydd yn rhaid iddynt symud.

Yn yr un modd, dylai ysgolion a lleoliadau sicrhau bod sut caiff toiledau eu defnyddio yn cael ei reoli er mwyn i bawb allu cadw pellter cymdeithasol, ar yr un pryd â sicrhau bod cymaint o ryddid â phosibl i'r dysgwyr ddefnyddio'r toiledau.

Defnyddio lle yn yr awyr agored

Er mwyn helpu i gadw pellter cymdeithasol, dylai ysgolion a lleoliadau sicrhau bod dysgwyr yn treulio cymaint o amser â phosibl yn yr awyr agored. Mae hyn yn arwain at fanteision dysgu a lles amlwg ond mae iddo hefyd fanteision pwysig yn ystod COVID-19 oherwydd:

- mae tystiolaeth yn dangos bod y risg o ddal yr haint yn is yn yr awyr agored
- mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw'r feirws yn goroesi'n hir yng ngoleuni'r haul
- mae hi'n haws cadw pellter cymdeithasol y tu allan, sy'n golygu'n ymarferol y gallai fod yn haws i ymarferwyr reoli grwpiau mwy o ddysgwyr yn yr awyr agored.

Bydd angen monitro'r dysgwyr yn amlwg a dylid stagro amseroedd egwyl er mwyn rheoli'r niferoedd.

Wrth baratoi ar gyfer yr hydref, dylai ysgolion ystyried sut byddant yn parhau i ddefnyddio gofod yn yr awyr agored mewn tywydd llai ffafriol. Bydd hyn yn golygu y bydd angen i ddysgwyr ddod â dillad sy'n briodol i'r tywydd.

Gwisg ysgol a chyfarpar

Mae croeso i ddysgwyr wisgo gwisg ysgol ond y peth pwysicaf yw gwisgo rhywbeth cyfforddus a **hawdd ei olchi**. Er mai'r corff llywodraethu sy'n gyfrifol am benderfynu a ddylid gwisgo gwisg ysgol, byddem yn disgwyl iddynt ystyried priodoldeb y polisi ar wisg ysgol hyd at ddiwedd tymor yr haf.

Ar ôl treulio diwrnod yn yr ysgol does dim angen gwneud unrhyw beth ar wahân i gymryd camau hylendid personol arferol a golchi'r dillad. **Ni ddylid gwisgo gwisg ysgol nad oes modd ei olchi mewn peiriant**. Yn ddelfrydol, dylid annog rhieni/gofalwyr i ddarparu dillad glân i'r dysgwyr bob dydd, ond efallai na fydd hyn yn bosibl a dylid trin hyn yn ofalus.

Ni ddylai mwy nag un person afael yn yr un eitemau os oes modd osgoi hynny. Pan fydd dysgwyr neu staff yn dod ag eitemau gyda nhw o'r cartref, dylid gofalu mai dim ond nhw fydd yn gafael yn yr eitemau hyn neu, os bydd angen, dylid eu glanhau'n briodol.

Dylid glanhau eitemau a chyfarpar yn rheolaidd os yw'n debygol y bydd mwy nag un person yn eu cyffwrdd dros amser, fel offer TG.

Arlwyo

Gan ddibynnu ar yr amserlen, mae'n bosibl y bydd ysgolion a lleoliadau'n penderfynu na fydd angen darparu cinio neu y dylai dysgwyr ddod â'u cinio eu hunain gyda nhw i leihau'r risg o drosglwyddo'r haint. Efallai y bydd angen i ysgolion neu leoliadau ddarparu cinio, ond mae hyn yn dibynnu ar yr amserlen. Dylid symud cyn lleied â phosibl rhwng ystafelloedd. Os pennir bod hynny'n ymarferol, gellid gweini'r bwyd yn ystafelloedd dosbarth y dysgwyr. Os bydd ystafelloedd bwyta yn gallu diwallu gofynion cadw pellter cymdeithasol, mae modd eu defnyddio er y dylai hyn gael ei stagro. Ar ôl bwyta, dylid glanhau ardaloedd yn unol â'r canllawiau. Dylai staff sicrhau bod pawb yn cadw pellter cymdeithasol dros amser cinio. Os bydd y dysgwyr yn bwyta yn eu hystafell ddosbarth, dylid symud popeth oddi ar y byrddau, eu diheintio, a dylent fod yn lân cyn darparu'r cinio/byrbryd. Os oes unrhyw bryderon, dylai ysgolion a lleoliadau ofyn am gyngor eu tîm Iechyd yr Amgylchedd lleol. Dylai'r staff a'r dysgwyr hefyd olchi eu dwylo cyn ac ar ôl gweini a bwyta bwyd.

Dylai awdurdodau lleol a phenaethiaid weithio gyda darparwyr a chyflenwyr bwyd i sicrhau hylendid cadarn, gan gynnwys wrth baratoi, defnyddio a gwaredu. Rhaid peidio â rhannu bwyd. Dylid gwahanu unrhyw fyrbrydau yn glir er mwyn osgoi hyn. Gellid stagro amser cinio ac amseroedd egwyl er mwyn ei gwneud hi'n haws cadw pellter cymdeithasol.

Dylai ysgolion wrth gwrs ddarparu prydau ar sail **Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013**. Dylai'r prydau hynny gael eu dylunio i gynnig llai o fwyd a diod sydd â llawer o fraster, siwgr a halen, a chynyddu faint o ffrwythau a llysiau a physgod olewog sy'n cael eu bwyta. Dylai bwyd a diod arall a ddarperir yn ystod y dydd hefyd fod yn seiliedig ar **ofynion bwyd a diod** y **Rheoliadau** hynny.

Asesiadau risg

Dylai ysgolion a lleoliadau ystyried y risgiau a'r manteision wrth benderfynu ar chwarae ac ar ryngweithio'r plant mewn ysgolion. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cynghori edrych ar y risgiau a'r manteision. Nid dileu pob risg yw diben hyn ond cael cydbwysedd: gan gynyddu'r manteision gan sicrhau na fydd dysgwyr yn wynebu unrhyw risg ddiangen. Dylai ysgolion a lleoliadau weithio gyda'u hawdurdodau lleol i ddatblygu asesiadau risg yng nghyswllt cynyddu gweithrediadau.

Dylai ysgolion wneud y canlynol.

- Mae angen i ysgolion gynnal asesiad risg COVID-19 priodol, fel y byddai'n digwydd ar gyfer unrhyw berygl iechyd a diogelwch arall. Dyma ddull gweithredu sy'n cael ei arwain gan y risg. Nid oes bwriad creu swm enfawr o ddogfennau, ond yn hytrach nodi mesurau synhwyrol i reoli'r risgiau. Dylai cofnodion yr asesiad fod yn syml gan ganolbwyntio ar fesurau rheoli. Dylai'r canlyniadau egluro i eraill beth sydd angen ei wneud, a helpu staff i gynllunio a monitro.
- Bydd cydymffurfiaeth mewn unrhyw ysgol yn dibynnu ar ba mor addas a digonol yw'r asesiad risg a'r trefniadau i roi mesurau rheoli synhwyrol, cymesur ac effeithiol ar waith, a'u cynnal. Dylai'r asesiad risg fedru cael ei drosi yn gamau gweithredu penodol y bydd angen eu cymryd, gan gael eu dylanwadu gan ffactorau penodol i'r safle.
- Dylid cynnal yr asesiad risg mewn cydweithrediad â pherson perthnasol sydd â'r sgiliau, gwybodaeth a phrofiad angenrheidiol i roi arweiniad synhwyrol ynghylch rheoli risgiau iechyd a diogelwch yn yr ysgol. Dylai mesurau rheoli gael eu hystyried gan ddilyn dull gweithredu hierarchiaeth rheolaeth.
- Dylai'r asesiad ystyried pa fesurau sydd angen eu rhoi ar waith i ddiogelu iechyd a diogelwch yr holl staff, dysgwyr, ymwelwyr a chontractwyr.
- Mae dyletswydd ar gyflogwyr i ymgynghori â'u gweithlu ynghylch materion iechyd a diogelwch, ac fe ddylid eu cynnwys yn yr asesiad ac wrth ddatblygu mesurau rheoli perthnasol. Rhaid i gyflogwyr ymgynghori â'r cynrychiolydd iechyd a diogelwch sy'n cael ei ddewis gan undeb llafur cydnabyddedig neu, os nad oes un yn bodoli, cynrychiolydd wedi'i ddewis gan y staff.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau fod y risgiau yn cael eu rheoli cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod asesiad risg perthnasol yn cael ei gynnal, a mesurau rheoli yn cael eu rhoi ar waith a'u monitro i sicrhau eu bod yn effeithiol.

Dylai asesiadau risg eisoes fod ar gael ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion mwy cymhleth, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol. Bydd angen diweddaru'r asesiadau risg hyn ar frys o ganlyniad i'r newidiadau mewn darpariaeth er enghraifft newidiadau i'r amgylchedd ac i'r staff. Rhaid hefyd cofio efallai y bydd dysgwyr yn poeni mwy oherwydd COVID-19. Os nad oes asesiadau risg ar gael, yna mae'n rhaid eu cynnal yn unol â'r canllawiau hyn a chanllawiau asesu risg lleol.

Ysgolion arbennig

Dylai ysgolion arbennig ddefnyddio eu gwybodaeth a'u hasesiadau risg er mwyn penderfynu:

- a yw'n ddiogel i'r plentyn ddod i'r lleoliad
- a oes angen cadw'r plentyn ar wahân i ddysgwyr eraill
- a oes angen mwy nag un aelod o staff ar y plentyn ac na fyddant yn gallu cadw pellter cymdeithasol oddi wrth y plentyn neu ei gilydd
- a oes angen i'r staff wisgo cyfarpar diogelu personol wrth weithio gyda'r plentyn (a lefel y cyfarpar diogelu personol) naill ai
  - yn gyffredinol
  - neu wrth roi gofal personol
  - neu wrth fwydo neu wrth roi meddyginiaeth neu ofal arbenigol.

Cyfathrebu â rhieni/gofalwyr

Mae cyfathrebu yn glir ac yn gryno â rhieni/gofalwyr yn hollbwysig wrth i ysgolion a lleoliadau gynyddu eu gweithrediadau. Dylai fod ffyrdd clir ar gael i rieni a gofalwyr ofyn cwestiynau a chodi pryderon. Mae'r canllawiau hyn yn nodi'r gofynion ar gyfer y dysgwyr a fydd yn dod i ysgolion a lleoliadau ac yn rhoi sylw i bryderon logistaidd. Mae'r *Canllawiau ar wahân ar ddysgu dros dymor yr haf* yn cynnwys rhagor o wybodaeth i rieni/gofalwyr ynghylch cefnogi'r dysgu yn ystod y cyfnod hwn.

Dylai ysgolion a lleoliadau gyfathrebu yn glir er mwyn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn deall y disgwyliadau. Gallai hyn gynnwys:

- cael gwybod ymlaen llaw gan rieni/gofalwyr ynghylch a fyddant yn anfon eu plant ai peidio
- gofyn i rieni/gofalwyr ddatgan nad yw eu plentyn wedi dangos unrhyw symptomau o COVID-19
- atgoffa rhieni/gofalwyr am bwysigrwydd hunanynysu pan fydd angen (ar sail y canllawiau uchod)
- eglurder ynghylch y trefniadau cludo yn ôl ac ymlaen i safle'r ysgol, bydd hyn hefyd yn cynnwys gollwng a chodi
- amseru diwrnod yr ysgol – yn enwedig os bydd yr ysgol yn stagro amseroedd dechrau
- mynedfeydd ac allanfeydd yr ysgol – efallai y bydd y rhain yn wahanol i'r trefniadau "arferol"
- y trefniadau bwyta
- y gweithdrefnau os bydd plentyn yn mynd yn sâl yn yr ysgol
- y trefniadau ar gyfer grwpiau o ddysgwyr drwy gydol y diwrnod ysgol.

Bydd y canllawiau hyn yn parhau i gael eu diweddaru wrth i'r dystiolaeth feddygol a gwyddonol esblygu. Dylech barhau i ddefnyddio'r **Cwestiynau**

Cyffredin i ymateb i ymholiadau cyffredinol.

Cyhoeddwyd gyntaf

10 Mehefin 2020

Diweddarwyd ddiwethaf

10 Mehefin 2020